

Arolygiad Iechyd Meddwl/ Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Ysbyty Tywysoges Cymru:
Ward 14 ac Uned Gofal Dwys
Seiciatrig Bwrdd Iechyd
Prifysgol Abertawe Bro
Morgannwg**

16 – 18 Tachwedd 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	4
2.	Methodoleg	5
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau.....	9
	Safonau Craidd.....	9
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	22
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	23
6.	Y Camau Nesaf.....	24
	Atodiad A	25

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau. Rydym yn gwneud hyn trwy:

- Fonitro'r gydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Asesu cydymffurfiaeth, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, fin nos ar 16 Tachwedd a thrwy'r dydd ar 17 a 18 Tachwedd 2015. Arolygwyd Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Fel rhan o'r ymweliad hwn, cynhaliom archwiliad amgylcheddol yn unig â Ward 15 (ward asesu) a Ward 21 (iechyd meddwl gweithredol, pobl hŷn).

Ysbyty cyffredinol dosbarth a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) yw Ysbyty Tywysoges Cymru, ac mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau iechyd aciwt, gan gynnwys gwasanaethau i gleifion mewnol, cleifion allanol a gwasanaethau dydd.

Ward derbyniadau seiciatrig ar gyfer oedolion o'r ddau ryw, ac iddi 19 gwely, oedd Ward 14 adeg ein hymweliad.

Ward gofal dwys seiciatrig ar gyfer oedolion o'r ddau ryw, ac iddi wyth gwely, oedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Roedd y ward ar glo, a chadarnhaodd y staff fod polisi drws ar glo ar waith a'u bod yn cydymffurfio ag ef.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom adolygu cynnydd yr argymhellion a wnaed yn ystod ein hymweliad blaenorol ym mis Rhagfyr 2014. Yn ogystal, buom yn adolygu cofnodion cleifion, yn cyfweld â chleifion a staff, yn adolygu'r amgylchedd gofal, ac yn arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd tîm adolygu AGIC yn cynnwys un adolygwr cymheiriaid, un adolygwr lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Ymweliad dilynol oedd ein hymweliad ym mis Tachwedd 2015 â Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn Ysbyty Tywysoges Cymru, ac roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion a nodwyd gennym ym mis Rhagfyr 2014. Roedd yn bleser gennym weld bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd ym mis Rhagfyr 2014. Un mater penodol oedd yr amgylchedd. Gosodwyd ffenestri newydd yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, a oedd bellach yn rhwystro eitemau rhag cael eu pasio trwyddo, a gosodwyd cyrten yn yr ystafell gawod er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas gan fod y drws yn agor i'r lolfa gymunedol/ystafell fwyta. Gwnaethom nodi meysydd eraill sydd angen sylw yn Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn adran amgylchedd y ward yn yr adroddiad hwn.

Soniodd y staff y siaradom â nhw fod lefelau staffio yn foddhaol, ac roedd gweithdrefn eglur ar waith i alw staff ychwanegol pe bai eu hangen. Roedd y drefn o recriwtio staff wedi gwella o ran yr amser a gymerir i recriwtio a'r lefel staffio.

Roedd y staff yn clodfori eu cydweithwyr a'r gwaith tîm, a gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion ar bob ward, yn arbennig sgiliau lleddfu cleifion yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig.

Gwnaethom nodi nad oedd larymau personol yn cael eu gwisgo'n aml ar Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Roedd anawsterau ynghylch nifer y larymau a'r drefn o'u cynnal a'u cadw yn dal yn amlwg yn dilyn ein hymweliad yn Rhagfyr 2014. Dywedodd staff nad oedd rhai mannau o'r wardiau o fewn golwg uniongyrchol i'r swyddfa nyrsio ac nad oedd larymau yn y coridorau. Felly mae peidio â gwisgo larwm yn peri risg i ddiogelwch cleifion a staff.

Roedd therapi galwedigaethol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a therapïau i gleifion. Cyfyngedig oedd y ddarpariaeth therapi galwedigaethol yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, sef rhywbeth a nodwyd yn Rhagfyr 2014.

Nid oedd amserlenni gweithgareddau wedi'u harddangos yn weledol ar lefel y ward, ac er bod gan gleifion eu cynllun unigol eu hunain, roedd y rhain wedi'u cadw yn ffeil y claf. Roedd cleifion a oedd yn barod i ofyn am gymorth therapi galwedigaethol yn ei dderbyn, ond dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod nhw'n diflasu yno. Mae angen i therapi galwedigaethol fod yn fwy rhagweithiol er mwyn ennyn diddordeb cleifion nad ydynt yn bwrw iddi i chwilio am gymorth therapi galwedigaethol, fel eu bod yn cael cymryd rhan yn y gweithgareddau a'r therapïau sydd ar gael. Roedd rhai anawsterau a nodwyd yn Rhagfyr 2014 ynghylch bwyd yn dal yn amlwg, yn enwedig y methiant parhaus i adael i gleifion ddewis eu bwyd eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y

gwnaethom siarad â nhw yn canmol y bwyd oedd yn cael ei weini yn yr ysbyty, ac roedd dŵr a diodydd poeth ar gael iddynt.

Roedd mynediad at ddietegwyr a mewnbwn oddi wrthynt yn faes oedd yn peri pryder, wrth i staff ddweud wrthym mai ychydig oedd y mewnbwn ar gyfer y cleifion hynny oedd angen y gwasanaeth hwn. Mae'n hanfodol bod claf sydd angen cyngor dietegol arbenigol yn ei dderbyn.

Nodwyd gwelliannau o ran monitro cofrestriadau proffesiynol, gyda systemau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth staff. Roedd canrannau uchel o gydymffurfiaeth mewn rhai meysydd o hyfforddiant gorfodol, a soniodd staff am y cyfleoedd i gael hyfforddiant ychwanegol.

Roedd proses ar waith er mwyn i staff gael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol, ac roedd systemau ar gyfer monito cynnydd yn cael eu hadolygu. Roedd hi'n amlwg bod angen adolygiad datblygu perfformiad ar y rhan fwyaf o'r staff yn y dyfodol agos. Er i staff ddweud eu bod nhw'n cael eu goruchwyllo'n anffurfiol, nid oedd system reolaidd o oruchwyliaeth, oedd yn cael ei chofnodi, ar gyfer y staff. Gan fod y maes hwn wedi'i nodi ar adeg ein hymweliad diwethaf, mae'n hanfodol bod staff yn cael eu mentora, eu goruchwyllo a'u cefnogi wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae gofyn cynnal hyfforddiant cynnal bywyd brys ar gyfer yr holl staff gan mai'r pwnc hwn oedd â'r ganran isaf o gydymffurfiaeth ledled y ddwy ward. Hefyd, mae angen gwella cyfraddau cwblhau hyfforddiant y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig

Yn ystod ein hymweliad yn Rhagfyr 2014, gwnaethom nodi rhai anawsterau gyda'r ffenestri yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Yn benodol, gwnaethom nodi ffenestri nad oedd yn agor ac eraill oedd yn agor yn ddigon llydan i eitemau gael eu pasio drwyddynt. Roedd yn bleser gennym nodi bod y ffenestri yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi eu newid a bellach yn gallu cael eu hagor yn ddiogel gan y cleifion.

Roedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi cael ei hymestyn er mwyn cynnwys tri gwely ychwanegol yn dilyn cau wardiau yn Ysbyty Cefn Coed. Nid oedd modd gweld un man yn y coridor yn yr ardal a ymestynnwyd, a byddai ar ei hennill o gael drych er mwyn adlewyrchu'r man hwn, rhag i rywun ei ddefnyddio i guddio. Hefyd, yn un o'r ystafelloedd gwely newydd, roedd hi'n anodd i staff arsylwi ar gleifion am nad oedd y gwely a'r prif fan o fewn golwg o'r panel gwyllo. O ganlyniad, dywedodd y staff wrthym fod yn rhaid iddynt fynd i mewn i'r ystafell i arsylwi ar y claf, gan darfu ar ei gwsg o bosibl.

Ward sydd wedi ei chloi yw'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig, a gellir cael mynediad iddi drwy ei mynedfa ei hun neu drwy Ward 14. Mae'r mannau i gleifion a staff i gyd ar y llawr daear, a cheir ystafell neilltuo ac ystafell ymolchi ger mynedfa'r ward. Mae ardal fyw a bwyta agored yn sefyll yng nghanol y ward, ac mae ystafelloedd gwely'r cleifion gan mwyaf ar ben pellaf y ward.

Gosodwyd cyrten preifatrwydd ychwanegol y tu mewn i ddrws yr ystafell gawod sy'n agor yn syth i'r lolfa, er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cymaint â phosibl, heb orfod symud yr ystafell gawod. Mae amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion yn hanfodol i'r staff yn y rhan hon o'r ward, yn enwedig am fod yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar gyfer y ddau ryw.

Roedd gardd gaeedig o gwmpas iard yn cynnig lle yn yr awyr agored ar gyfer y cleifion. Roedd yn gyfleus o'r lolfa/ystafell fwyta ac yn cynnwys cysgodfan ar gyfer cleifion sy'n smygu. Nid oedd modd cloi'r prif ddrws i'r ardd, ac yn ystod ein hymweliad, dywedodd rhai aelodau o'r staff y byddai'n well ganddynt petai'r drws yn cael ei gloi ar ôl hanner nos. Fodd bynnag, dywedodd staff eraill y byddai mynediad agored yn gallu cynnig lle cyfleus i gleifion fynd yn ystod y nos pan fyddant yn teimlo'n sâl.

Dylai fod modd cloi'r drws hwn fel rhan o'r profion diogelwch. Er i'r staff ddweud nad oedd allanfa o'r iard (nad oedd perygl i rywun ffoi), mi roedd yna

nifer o ffenestri yn edrych dros yr iard o'r llawr daear ac uwchben. Ar ben hynny, petai staff yn cael eu galw i fan y tu hwnt i'r drws agored, gallai claf fod yn yr iard heb fod neb yn arsylwi arno.

Nid oedd y drws i swyddfa'r nyrs sy'n agor i'r iard wedi cael ei gloi ar noson yr arolygiad, felly gallai cleifion fod wedi cael mynediad heb ganiatâd i'r swyddfa honno. Gallai hyn arwain at danseilio diogelwch mewn modd difrifol. Pe bai staff yn cael eu galw i ddigwyddiad, gallai claf gael mynediad i eitemau niweidiol posibl, i adnoddau cyfrinachol, neu gall gloi ei hun yn y swyddfa. Roedd drysau eraill i fannau oedd ar gyfer y staff yn unig hefyd ar agor neu'n cael eu dal ar agor.

Roedd cegin yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn darparu cyfleusterau a chyfarpar i staff gael gweini prydau bwyd, diodydd poeth ac oer, a byrbrydau i'r cleifion. Ychwanegwyd twll yn y wal er mwyn gweini, ac roedd yn fwy addas ar gyfer darparu prydau ohono na thrwy ddrws y gegin.

Roedd lolfâ dawl, oedd â theledu, chwaraewr DVD, peiriant chwarae cerddoriaeth a silff lyfrau, yn cynnig lle ychwanegol ar gyfer y cleifion. Cafwyd nifer o hysbysfyrddau a byrddau gwybodaeth ar gyfer y cleifion ar y ward, ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg, gwybodaeth am elusennau a sefydliadau iechyd meddwl, a gwybodaeth hefyd am sut i wneud cwynion. Roedd hysbysfwrdd a oedd yn arddangos lluniau'r aelodau staff i gyd yn rhoi gwybod i gleifion pwy oedd pwy, ac roedd yn gam cadarnhaol.

Ar adeg ein hymweliad, gwelsom fod y ward yn olau, yn cael digon o awyr, ac yn lân. Roedd y dodrefn a'r gosodiadau mewn cyflwr da. Roedd angen newid amser y cloc yn yr ystafell neilltuo oherwydd roedd awr yn rhy fuan; cafodd hyn ei gywiro yn ystod yr arolygiad.

Ward 14

Ward derbyniadau aciwt, wedi'i chloi, yw Ward 14, ac mae ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd. Roedd 19 o welyau ar y ward ar adeg ein hymweliad; datgomisiynwyd un ystafell wely ychwanegol yn dilyn tân. Roedd yr ystafelloedd gwely yn gymysgedd o ystafelloedd sengl, dwbl, a rhai â phedwar gwely ynddynt. Roedd cynllun y ward yn dynodi y byddai angen i gleifion newydd neu rai oedd yn cael eu harsylwi gan nyrsys gael ystafell wely'n nes at y swyddfa nyrsio. Fodd bynnag, roedd staff o'r farn nad oedd modd trefnu hyn bob amser yn sgil dewisiadau'r cleifion ac amserau derbyniadau aciwt. Roedd gan ddwy ystafell wely gyfleusterau en-suite, a cheid toiledau a chawodydd oedd yn benodol i'r rhywiau ar gyfer y cleifion hynny oedd heb en-suite. Yn y ward drwyddi draw, gwelsom arwyddion da, eglur a dwyieithog ar y drysau.

Roedd holl fannu'r cleifion a'r staff ar y llawr daear. Roedd yr ystafell fwyta a'r gegin ger mynedfa'r ward, ac roedd digon o seddi ar gael ar gyfer y grŵp o gleifion. Ceid mynediad i'r iard awyr agored gyferbyn â'r ystafell fwyta, ac roedd hi'n bleser nodi bod y man wedi cael ei wella â phorfa artiffisial. Roedd yr iard ar agor o 6am hyd hanner nos bob dydd. Roedd yr ardal yn lân ac roedd man wedi'i ddynodi ar gyfer cleifion oedd yn smygu.

Cafwyd nifer o hysbysfyrddau a byrddau gwybodaeth ar gyfer y cleifion ar y ward, ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg, gwybodaeth am elusennau a sefydliadau iechyd meddwl, a gwybodaeth hefyd am sut i wneud cwynion. Roedd hysbysfwrdd a oedd yn arddangos lluniau'r aelodau staff i gyd yn rhoi gwybod i gleifion pwy oedd pwy, ac roedd yn gam cadarnhaol.

Safai'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi o boptu'r coridor. Ceid gwelyau sengl yn yr ystafelloedd gwely, ynghyd â wardrob a chist ddillad i storio eiddo personol. Nid oedd modd i'r cleifion gloi drysau'r ystafelloedd gwely, a gall hyn fod fater o bryder i gleifion benywaidd a allent deimlo'n fregus ar ward gymysg.

Hanner ffordd i lawr y ward roedd coridor yn arwain i fan gweithgaredd ar gyfer y cleifion. Y cyfleusterau oedd ar gael yno oedd lolfa i ddynion a lolfa i fenywod, a lolfa gymunedol/therapi galwedigaethol. Ar adeg ein hymweliad, roedd seddi ar gyfer hyd at chwe chlaf yn y lolfa i fenywod, ond nid oedd yno deledu am fod claf wedi'i dynnu lawr yn ddiweddar. Roedd peiriant chwarae cerddoriaeth yn y lolfa i fenywod, ac roedd croeso i'r cleifion ei ddefnyddio. Gwnaethom nodi hefyd bod cwpwrdd wedi torri yno a soced ffôn a oedd wedi'i ddifrodi â chebl yn hongian o'r wal. Roedd yna deledu yn lolfa'r dynion, a seddi ar gyfer hyd at bum claf.

Roedd digon o le yn y lolfa gymunedol/ystafell therapi galwedigaethol, a nifer o silffoedd llyfrau a chypyrddau a oedd yn cynnwys llyfrau, posau, a deunyddiau celf a chrefft. Roedd byrddau a chadeiriau yn cynnig lle i gleifion eistedd a chymryd rhan mewn celf a chrefft. Roedd seddi ymlacio/soffas yn cynnig cyfle i'r cleifion wyllo teledu. Roedd radio, chwaraewr DVD a bwrdd sialc yn yr ystafell. Roedd ffôn talu yng nghoridor y ward ac roedd croeso i'r cleifion ei ddefnyddio.

Mae'r ward ar siâp 'L', ac mae'r lolfeydd, y Pod² a'r ystafell weithgaredd ychydig o bellter o'r swyddfa nyrsio ac nid oedd larymau yn y coridorau.

Roedd Ward 14 yn olau, yn lân a heb annibendod. Ceid nifer o luniau ar y waliau yn y ward drwyddi draw. Roedd drws y golchdy wedi cracio ac wedi'i ddifrodi, a gwelsom ddifrod ar y wal o flaen mynedfa'r gampfa.

² Ystafell lle cadwa'r staff eitemau ar gyfer y cleifion yw'r Pod, a gellir ei defnyddio fel ystafell gyfarfod fach.

Rhannwyd y gampfa gan gleifion Ward 14 a chleifion yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ac roedd ynddi ddigon o gyfarpar megis peiriannau cardio ac offer codi pwysau. Roedd bwrdd tennis a bwrdd pŵl ar gael. Roedd ychydig o annibendod yn yr ystafell gan fod cadeiriau wedi'u gosod ar ben ei gilydd a'r ystafell yn flêr yn gyffredinol. Ychydig o staff oedd wedi'u hyfforddi i gynnig cyfarwyddyd ar ddefnyddio'r gampfa.

Wardiau 15 a 21

Fel rhan o'n hymweliad fin nos, cynhaliom archwiliad amgylcheddol â Wardiau 15 a 21, oedd ill dau ar gyfer pobl hŷn.

Roedd deuddeg o gleifion ar Ward 15 ar adeg ein hymweliad. Roedd rhai cleifion ar gymal olaf dementia ac roedd arnynt angen gofal lliniarol. Gallai rhai o'r grŵp o gleifion fod yn ymosodol, roedd llawer ohonynt yn gwlychu a baeddu, ac roedd angen cymorth ar rai ohonynt wrth fwyta. Roedd lefelau staffio yn foddhaol ar gyfer y nifer o gleifion oedd ar y ward.

Roedd y ward wedi'i haddurno'n dda, yn lân, ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n foddhaol. Roedd lluniau a ffotograffau ar y waliau. Roedd pedair ystafell wely sengl, un ystafell wely dwbl, a thair ystafell wely oedd ag mwy nag un gwely. Ceid lolfâ, ystafell fwyta ac ystafell haul, ac ynddynt ddigon o seddi, ac roeddent mewn cyflwr da.

Roedd yr ardd ar gau ar adeg ein hymweliad, er mwyn adeiladu gardd synhwyrus.

Nid oedd gan gleifion lolfeydd tawel i'r naill ryw, a dywedodd staff wrthym fod cleifion gwrywaidd yn codi ofn ar rai cleifion benywaidd. Roedd man tawel lle gallai'r cleifion weld eu perthnasau.

Yn ystod ein hymweliad, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r cleifion y gallu i ddefnyddio ffôn. Roedd y ddau glaf oedd yn gallu defnyddio ffôn yn defnyddio ffôn y swyddfa i gynnal cyswllt â theulu a ffrindiau. Nid oedd ffôn talu ar y ward.

Nid oedd ystafelloedd gwely en-suite, ond roedd gan gleifion fynediad at ystafelloedd ymolchi/cawod oedd yn benodol ar gyfer un rhyw.

Roedd staff o'r farn nad oedd digon o le i storio pethau, yn enwedig ar gyfer matresi oedd yn cael eu storio ar y ward.

Nid oedd y ward wedi'i chynllunio'n wreiddiol ar gyfer y grŵp hwn o gleifion; felly, roedd rhai nodweddion nad oeddent yn addas ar gyfer cleifion oedd â dementia, a gallant fod yn beryglus. Yn benodol, roedd cadeiriau a llawr y

lolf a o'r un lliw, ac nid oedd gorchudd amddiffynnol dros bileri'r lolfa oedd yn ymestyn o'r llawr i'r nenfwd. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion weithiau'n cerdded i mewn iddynt.

Gwelsom fod perthynas dda rhwng staff a chleifion. Dywedodd y staff wrthym fod cael deuddeg o gleifion ar y ward yn galluogi'r staff i roi mwy o amser iddynt ar gyfer gweithgareddau. Roedd gan rai cleifion lyfrau am hanes eu bywyd, ac roedd gemau bwrdd a DVDau ar gael. Roedd cleifion yn mwynhau gweithgareddau harddwch yn fwy na dim, ac roedd triniwr gwallt yn ymweld bob wythnos.

Saif Ward 21 ar yr ail lawr. Nid oedd logisteg y ward yn ddelfrydol am fod yn rhaid i staff hebrwng cleifion i lawr grisiau i ddefnyddio'r ardd, oedd heb seddi at ddefnydd y cleifion.

Ar y ward, gallai'r cleifion ddefnyddio lolfa oedd â theledu. Roedd y ward yn lân ac i'r diben. Roedd yr ystafelloedd gwely yn gymysgedd o ddwy ystafell sengl, ystafelloedd dwbl, a chilfannau gyda phedwar gwely.

Mae'r ward ar siâp 'L' ac yn arwain at goridor a oedd allan o olwg y staff nyrsio. Dywedodd staff wrthym eu bod yn ceisio lletya cleifion risg isel yn yr ardal hon ond nad oedd hynny'n bosibl bob amser.

Dywedodd staff wrthym fod yr amrywiaeth o ran cleifion (salwch meddwl organig a gweithredol) wedi bod yn anodd i'w reoli a'u bod o'r farn nad oedd diagnosis penodol ar gyfer y cleifion oedd yn cael eu derbyn i'r ward. O ganlyniad i'r cymysgedd o ran diagnosis, dywedodd y staff fod nifer o gleifion ymosodol wedi eu gosod ar y ward a bod hyn wedi arwain at ymosodiadau ar staff. Ar adeg ein hymweliad, roedd dau aelod o staff asiantaeth yn eistedd gyda dau glaf oedd o dan arsylwad nyrsio un i un. Roedd nifer o gleifion yn cael eu harsylwi rhag iddynt gwmpo, ac roedd un nyrs gymwysedig ar ddyletswydd gyda dau gynorthwydd gofal iechyd rheolaidd.

Nid oedd toiled nac ystafell newid benodedig gan y staff ar y ward, ac roedd yn rhaid iddynt ddefnyddio'r toiled i ymwelwyr oedd ychydig y tu hwnt i'r ward.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o'r estyniad i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig er mwyn sicrhau bod y grŵp o gleifion yn cael ei fonitro a'i arsylwi'n ddiogel gan y staff.

Mae angen cynnal adolygiad o ddrws yr iard i sicrhau bod modd ei gloi i ddiogelu cleifion a staff.

Mae angen adolygu'r drysau agored a'r rhai sydd wedi eu cadw ar agor i swyddfa'r nyrsys a mannau eraill ar gyfer y staff yn unig, er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r wybodaeth a gedwir yn yr ystafelloedd hyn.

Mae angen rhoi sylw i lolfa'r menywod ar Ward 14 i sicrhau bod dodrefn a socedi ffôn sydd wedi torri yn cael eu tynnu ymaith neu'n cael eu trwsio.

Mae angen trwsio neu newid y drws i'r golchdy ar Ward 14.

Mae angen trwsio'r difrod i'r waliau ar Ward 14, yn benodol i'r wal o flaen mynedfa'r gampfa.

Diogelwch

Yn ystod ein hymweliad blaenorol, gwnaethom dynnu sylw at bryderon o ran lefelau staffio, yn enwedig yn ystod y sifft nos, a ph'un a oedd staff yn ymwybodol o'r hyn oedd i'w wneud os oedd angen staff ychwanegol.

Gwelsom fin nos ar 16 Tachwedd 2015 mai'r niferoedd staffio ar Ward 14 oedd tri aelod o staff, sef dwy nyrs gofrestredig ac un cynorthwydd gofal iechyd, a oedd yn rhoi gofal i bymtheg o gleifion. Er nad oedd niferoedd staffio ar Ward 14 wedi cynyddu ers ein hymweliad blaenorol, dywedodd staff wrthym y byddai unrhyw glaf oedd yn cael ei arsylwi yn cael aelod ychwanegol o staff i gyflenwi'r gwaith arsylwi. Yn ogystal, ni wnaeth yr un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw leisio unrhyw bryderon ynglŷn â lefelau staffio yn ystod y sifft nos, a dywedodd y staff i gyd eu bod yn gwybod sut i drefnu staff ychwanegol os oedd eu hangen.

Ar yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, arsylwom ar ddwy nyrs gofrestredig a dau gynorthwydd gofal iechyd yn rhoi gofal i wyth claf. Gan fod y ward wedi cynyddu niferoedd y gwelyau, roedd lefelau staffio wedi cael eu cynyddu hefyd. Roedd nyrsys dan hyfforddiant ar leoliad, oedd yn elfen gadarnhaol o ran recriwtio yn y dyfodol.

Adolygwyd yr ystafell neilltuo, ac roedd ystafell ymolchi a oedd drws nesaf iddi ar gael at ddefnydd y cleifion. Roedd cloc wedi'i osod yn yr ystafell neilltuo ond ar adeg ein hymweliad roedd awr yn rhy fuan ac roedd angen newid yr amser cyn bod claf yn cael ei dderbyn i'r ystafell.

Nid oedd larymau personol y staff ar Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn gweithio'n llawn, a nodwyd hyn yn yr ymweliad blaenorol. Dywedodd staff wrthym fod prinder larymau ar Ward 14 ac nad oedd rhai'n gweithio. Yn ogystal, gwnaethom nodi bod elfen o ddibrisio'r risg a berir gan gleifion ymhlith y staff ar y ddwy ward, er i'r staff ddweud wrthym eu bod yn asesu risg yn ddyddiol. Wrth i rai staff nodi bod mannau ar Ward 14 wedi'u hynysu, yn enwedig y lolfa/ardal therapi galwedigaethol, argymhellir bod y defnydd o larymau personol yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Wrth inni gyrraedd yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, nid oedd yr un o'r staff yn gwisgo larwm ac ni wnaethant ddarparu larwm i ymwelwyr neu nyrsys dan hyfforddiant yn awtomatig. Nid chafwyd yr argraff fod staff yn ymateb yn gydlynus wrth i larwm seinio'n ddamweiniol.

Gwnaethom nodi na wnaed unrhyw welliannau i'r system galw nyrsys, gan fod y rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely a lolfeydd a choridorau'r cleifion ar Ward 14 heb system larwm. Gan mai prin yw'r staff sy'n gwisgo larymau personol a bod mannau heb glychau galw neu â chlychau nad ydynt yn gyfleus, argymhellir bod adolygiad o ddiogelwch cleifion a staff yn cael ei gynnal.

Yn ystod ein hymweliad nos, gwnaethom nodi bod amryw o eitemau therapi galwedigaethol yn cael eu cadw ar waelod y grisiau wrth allanfa dân ar Ward 14. Gallai'r rhain fod wedi rhwystro cleifion oedd yn myned allan o Ward 14 ac o Ward 21 oddi uwch. Hysbyswyd y staff am hyn ar unwaith a symudwyd yr eitemau yn ystod yr arolygiad. Mae'n hanfodol bod allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir a bod y staff i gyd yn wyliadwrus er mwyn cadw'r wardiau'n ddiogel.

Gallai diffoddydd tân a osodwyd ar y wal ar Ward 14 gael ei dynnu ymaith a'i gamddefnyddio'n hawdd. Argymhellir bod hyn yn cael ei adolygu er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd yn cael ei gamddefnyddio.

Argymhellion

Mae angen adolygu'r ddarpariaeth o larymau personol, a defnydd y staff ohonynt, i sicrhau bod digon ohonynt ar gyfer staff ac ymwelwyr ac nad yw diogelwch y cleifion a'r staff yn cael ei danseilio.

Mae angen adolygu'r system galw nyrsys er mwyn sicrhau ei bod yn gyfleus ac ar gael i bawb ei defnyddio.

Mae angen adolygu diogelwch y diffoddyddion tân er mwyn lleihau'r posibilrwydd y byddant yn cael eu camddefnyddio.

Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gwaith y tîm amlddisgyblaethol, gan nodi bod nifer o ddisgyblaethau yn bresennol mewn cyfarfodydd, gan gynnwys fferyllydd. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw ddisgyblaeth benodol yn dominyddu'r trafodaethau amlddisgyblaethol, a bod pawb yn parchu ei gilydd mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol.

Dywedodd y staff wrthym nad yw'r cydgysylltwyr gofal bellach yn mynychu'r cyfarfodydd amlddisgyblaethol ar Ward 14 a bod cylchdeithiau ward wedi cael

eu disodli gan adolygiadau ward. Nid oedd staff nyrsio yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn adolygiadau ward, oedd yn peri anhawster wrth reoli disgwyliadau'r cleifion, meddai'r staff, am nad oeddent wedi bod yn rhan o'r adolygiad ac felly nad oeddent yn ymwybodol yn llawn o'r hyn a drafodwyd ac a gytunwyd.

Dywedodd staff wrthym fod cyfarfodydd yn digwydd yn rheolaidd. Ar wahân i'r cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol, cynhelir nifer o gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar y claf ac a fynychir gan aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol.

Argymhellion

Mae angen adolygu pam nad yw cydgysylltwyr gofal bellach yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol ar Ward 14, a sut caiff gwybodaeth ynglŷn â'u cleifion eu cyfathrebu iddynt.

Mae angen adolygu'r drefn bresennol o ddisodli cylchdeithiau ward gan adolygiadau claf gydag ond ymgynghorydd/meddyg a seicolegydd, gan fod hyn yn tanseilio cyfraniad y nyrsys at ofal y claf. Mae adolygu ar sail y cynllun gofal a thriniaeth ac asesu risg yn ddyddiol yn rhan o'r broses nyrsio ac yn gofyn am weithredu ar y cyd. Mae angen i'r ffurf newydd sicrhau nad yw diffyg cyfraniad y staff nyrsio yn tanseilio'r canlyniadau i'r claf, ac nad yw'r drefn o gyfathrebu'n mynd yn rhanedig.

Preifatrwydd ac urddas

Dywedodd y cleifion i gyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod o'r farn bod eu hurddas a'u preifatrwydd yn cael eu parchu. Roedd yr ystafelloedd gwely ar Ward 14 yn gymysgedd o ystafelloedd sengl, dwbl, a rhai â phedwar gwely ynddynt. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a oedd yn rhannu ystafelloedd eu bod nhw'n anfodlon yn bennaf â'r drefn hon, ac y byddai'n well ganddynt gael ystafell sengl. Roedd gan ystafelloedd a rennir gyrten rhwng gwelyau er mwyn rhoi preifatrwydd, a dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio ystafelloedd cyfarfod er mwyn sgwrsio'n breifat â'r cleifion.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn gallu cwrdd â theulu a ffrindiau ar y ward, ac roedd cleifion hefyd yn gallu defnyddio'u ffonau symudol eu hunain i wneud galwadau ffôn.

Ers ein hymweliad blaenorol, sylwom fod cyrten wedi'i osod wrth ddrws yr ystafell gawod yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, er mwyn amddiffyn urddas pobl gan fod y drws yn agor i'r lolfâ gymunedol.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oedd ganddynt ddigon o bethau i'w gwneud, ac na ofynnwyd iddynt beth oeddent yn dymuno'i wneud. Dywedodd cleifion wrthym eu bod nhw'n diflasu yno ac mai dim ond un teledu oedd ar Ward 14. Dywedodd y cleifion fod penwythnosau'n ddiflas, a dywedodd staff nad oedd gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer penwythnosau. Lle'r oedd yn bosibl, byddai cynorthwywyr nyrsio a gofal iechyd yn trefnu ac yn cyflwyno gweithgareddau.

Yn ystod yr wythnos, roedd staff therapi galwedigaethol yn darparu nifer o weithgareddau gan gynnwys celf a chrefft, harddwch, sesiynau ymlacio a sesiynau campfa. Roedd cegin therapi galwedigaethol ar gael oddi ar y wardiau. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom gleifion yn gadael Ward 14 i gael cyfnod o absenoldeb ac i wneud gweithgareddau oddi ar y safle, ond ychydig iawn o weithgaredd a welwyd ar y ward.

Cadarnhaodd trafodaethau â staff therapi galwedigaethol fod disgwyl, ar adeg ein hymweliad, i un therapydd galwedigaethol ac un cynorthwydd therapi galwedigaethol gael eu penodi. Yn wahanol i Ward 14, nid oedd mewnbwn gan therapi galwedigaethol yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ac nid oedd cleifion yn derbyn rhaglen o weithgareddau ystyrlon. Roedd therapi galwedigaethol yn rhoi cyngor/asesiadau ar ffurf ad hoc. Roedd yr holl gleifion a dderbyniwyd yn cael eu sgrinio ar sail model o weithgarwch dynol (MOHO),³ ac roedd asesiadau a gofnodwyd yn arwain at gynlluniau unigol ar gyfer y cleifion.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y cleifion a oedd yn barod i ofyn am gymorth therapi galwedigaethol yn ei dderbyn. O ran y cleifion hynny a oedd angen rhagor o anogaeth ac a ddywedodd eu bod nhw wedi diflasu, mae angen rhagor o fewnbwn gan therapi galwedigaethol i'w cynnwys mewn gweithgareddau a therapïau.

Roedd ymweliadau gan deulu a ffrindiau'n cael eu hannog a'u croesawu. Roedd cleifion yn gallu defnyddio eu ffonau symudol eu hunain i gadw mewn cyswllt â pherthnasau, ac roedd ffôn talu ar gael hefyd.

Roedd gan yr holl gleifion fynediad at le yn yr awyr agored, a dywedon nhw wrthym fod ganddynt rywle i fynd os oedd arnynt angen amser ar eu pen eu hunain. Soniodd staff wrthym am y trefniadau oedd ar waith i sicrhau lles y

³ Mae MOHO yn cynnig fframwaith (neu fodel) er mwyn i therapyddion galwedigaethol ddeall sut mae defnyddio gweithgareddau dyddiol yn therapyddol er mwyn cyfrannu at iechyd pobl. Mae'n ceisio esbonio sut mae gweithgareddau dyddiol, ystyrlon yn cael eu hannog, eu cynllunio a'u perfformio. Am ragor o wybodaeth, ewch i <http://www.cade.uic.edu/moho/default.aspx>

cleifion, oedd yn cynnwys mynediad at feddyg teulu a gwasanaethau gofal iechyd eraill.

Argymhellion

Mae angen recriwtio, mewn modd amserol, therapydd galwedigaethol amser llawn a therapydd galwedigaethol cynorthwyol er mwyn cynnal amgylchedd therapiwtig parhaus yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrïg yn benodol.

Mae angen cynnal adolygiad o'r modd mae cleifion yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau/therapiau, gan roi ystyriaeth i amserlenni gweithgaredd generig ac i ddarparu amserlenni personol i gleifion.

Bwyd a maetheg

Gwnaeth y mwyafrif o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am y bwyd a roddir iddynt yn yr ysbyty. Cynigiwyd pedwar pryd o fwyd y dydd i gleifion, sef: brecwast, cinio, te a swper.

Roedd bwydlen wythnosol ar waith ar adeg ein hymweliad, a dywedodd y cleifion wrthym fod ganddynt ddewis o brydau. Yn ystod ein hymweliad, ni welsom unrhyw gleifion yn dewis o'r fwydlen wythnosol, ac nid oedd bwydlen ar ddangos. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gwneud dewisiadau bwyd ar ran y cleifion.

Roedd y system hon o gael staff i ddewis bwyd ar ran y cleifion yn anghyson oherwydd roedd rhai o'r staff yn archebu bwyd o'r un fath i bawb, ac felly ni chynigiwyd amrywiaeth. Mynegwyd y mater hwn yn ystod ein hymweliad blaenorol, ac ni welsom dystiolaeth bod rheolwyr y ward a'r staff yn annog dewisiadau i'r cleifion, fel y dynodir yn y cynllun gwaith; caiff dewisiadau'r cleifion eu tanseilio, felly, ac mae angen adolygu hyn.

Dywedodd rhai aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw fod y bwyd yn gallu bod braidd yn ddi-flas, yn eu tyb nhw, gyda'r un bwyd yn cael ei weini ar yr un diwrnod bob wythnos. Gwnaeth yr holl gleifion a staff y siaradom â nhw ddweud bod maint y prydau'n foddhaol, a bod digon o fwyd yn cael ei weini i'r grŵp o gleifion.

Roedd dŵr a sgwosh ar gael i'r cleifion drwy'r amser. Darparwyd diodydd poeth ar amserau penodol, ac ar gais os oedd hynny'n bosibl. Storiwyd ffrwythau a byrbrydau yng ngheginau'r ward, a gallai'r cleifion ofyn amdanynt gan y staff.

Roedd y mynediad at ddeietegwyr yn peri pryder, gydag ond ychydig neu ddim cyfraniad ganddynt ar gyfer y cleifion hynny oedd angen y gwasanaeth

hwn. Dywedodd staff wrthym fod cleifion Ward 14 yn derbyn ymgynghoriad dwy awr o hyd yn wythnosol dros y ffôn. Mae angen adolygu'r ddarpariaeth o ddeieteg⁴ i sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd meddwl yn derbyn cyngor arbenigol pan fo angen.

Argymhellion

Dylid annog cleifion i ddewis eu prydau eu hunain o'r fwydlen a ddarperir.

Dylai'r adran ddeieteg fod yn hyrwyddo maeth iach a phwysigrwydd yfed digon o ddŵr. Mae gwybodaeth am gynnal pwysau iach neu am beidio rhoi gormod o bwysau ymlaen yn bwysig i bobl sydd ar rai meddyginiaethau penodol.

Mae angen adolygu'r ddarpariaeth o ddeieteg i sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd meddwl yn derbyn cyngor arbenigol/asesiadau pan fo angen.

Hyfforddiant

Gwnaethom fwrw golwg ar ddeg ffeil staff o'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig a Ward 14, ac roedd hi'n amlwg bod diffyg cysondeb. Nid oedd gan hanner y ffeiliau a adolygwyd gennym restr wirio ynghlwm; gwelwyd bod un restr yn anghyflawn. Ni wahanwyd y cynnwys fesul gwybodaeth benodol, felly roedd y ffeiliau'n anodd i'w dilyn ac yn anniben. Mewn un ffeil a adolygwyd gennym roedd gwaith papur yn cadarnhau bod cyflogai wedi ymddeol, ond roedd y cyflogai'n gweithio rhan amser ond nid oedd cofnod o hyn yn y ffeil.

Cafwyd ffeiliau heb dystlythyrau, heb nodyn i esbonio'r rheswm am hyn. Roedd ffurflenni cais, llythyr cynnig a chontractau mewn rhai o'r ffeiliau, ond dim ond ychydig o'r wybodaeth hon oedd mewn ffeiliau eraill, felly roedd hi'n anodd profi bod ymgeiswyr wedi cael eu penodi drwy broses agored. Mae angen gweithredu dull safonol ar gyfer yr holl ffeiliau staff, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth y penodiad yn gyson.

Roedd hi'n gadarnhaol gweld bod y drefn recriwtio ar Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn codi'r lefelau staffio i'w lefelau gofynnol. Hefyd, gwnaethom nodi'r prosiect aciwtedd a oedd yn mynd rhagddo ar adeg ein hymweliad, a sut bydd hwn yn bwydo i'r broses recriwtio i sicrhau bod lefelau staffio yn ddigonol ar gyfer anghenion y cleifion.

Roedd y broses recriwtio wedi gwella'n sylweddol, a phrosesau wedi eu cwtogi o nifer o fisoedd i nifer o wythnosau.

⁴ Astudiaeth

Roedd yn bleser gennym nodi bod system ar waith i fonitro pryd roedd angen adnewyddu cofrestriadau proffesiynol, ac i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym ei fod yn bryd iddynt dderbyn adolygiad datblygu perfformiad blynyddol, neu eu bod ar fin ei dderbyn, a nodwyd gennym fod systemau ar waith i fonitro'r maes hwn. Amlygodd y wybodaeth a ddarparwyd bod nifer o fylchau, gan mai ond saith aelod o staff allan o 22 oedd ag adolygiad datblygu perfformiad cyfredol ar waith. Roedd y data ar gyfer staff yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn dangos bod 13 allan o 29 o aelodau staff i fod derbyn eu hadolygiad datblygu perfformiad cyntaf yn 2016.

Nid oedd tystiolaeth gennym fod proses oruchwyllo ffurfiol ar waith ar gyfer pob aelod o staff ar Ward 14 neu'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Dywedodd aelodau staff wrthym eu bod wedi derbyn goruchwyliaeth anffurfiol, ond nid oedd dim ar waith i gofnodi neu i brofi hyn. Roedd staff therapi galwedigaethol yn derbyn goruchwyliaeth fisol a gofnodir, a dywedodd y staff eu bod o'r farn bod hyn o gymorth. Mae angen rhoi system oruchwyllo reolaidd, a gofnodir, ar waith ar gyfer pob aelod o staff.

Diweddarwyd y rhaglen o sesiynau hyfforddiant gofynnol er mwyn cynnwys hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, fel yr argymhellwyd yn ein hymweliad blaenorol, ond mae angen gwella'r cyfraddau cwblhau. Roedd y cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn 66% yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ac yn 76% yn Ward 14. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 69% yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ac yn 76% yn Ward 14. O gymharu â'r modiwlau hyfforddiant eraill, roedd cydymffurfiaeth yn y ddau faes hyn dipyn yn is ac mae angen gwella hyn. Argymhellir bod hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn cael ei ychwanegu at y rhestr orfodol er mwyn sicrhau bod cysondeb o ran gwybodaeth a defnydd.

Rhaid cynnal hyfforddiant cynnal bywyd brys fel mater o flaenoriaeth, gan mai cydymffurfiaeth yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig oedd 62%, a chydymffurfiaeth Ward 14 oedd 44%, sef y ffigurau isaf o ran cwblhau hyfforddiant yn y ddwy ward. Yn ogystal â hyn, nid oedd rhai staff wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn ers 2013 er bod yr hyfforddiant yn ofynnol bob blwyddyn. Nid oedd hyfforddiant penodol ar asesiadau risg a rheoli risg ar waith yn llawn.

Roedd hi'n bleser nodi bod yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi cyflawni 97% o ran hyfforddiant golchi dwylo a rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH), ac roedd Ward 14 wedi cyflawni 96% o gydymffurfiaeth mewn trais ac ymddygiad ymosodol, a hyfforddiant tân. Soniodd y staff am gyfleoedd da i wneud hyfforddiant ychwanegol y tu hwnt i'r rhestr orfodol.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o ffeiliau staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn gyson a bod y gwaith papur yn berthnasol a bod modd ei ddilyn mewn ffordd ddealladwy.

Mae angen i adolygiad datblygu perfformiad blynyddol gael ei gwblhau ar gyfer pob aelod o staff.

Mae angen rhoi system oruchwyllo reolaidd, a gofnodir, ar waith ar gyfer pob aelod o staff.

Rhaid cynnal hyfforddiant cynnal bywyd brys ar gyfer y staff i gyd fel mater o flaenoriaeth.

Mae angen adolygu a gwella cyfraddau cwblhau rhai meysydd o hyfforddiant gorfodol, yn benodol ar y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Dylid ychwanegu hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl 1983 at y rhestr orfodol er mwyn sicrhau bod cysondeb o ran gwybodaeth a defnydd.

Dylai hyfforddiant asesu risg fod yn flaenoriaeth i'r staff.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol a gedwir yn Ysbyty Tywysoges Cymru, gan ddilyn trywydd y materion a nodyd yn ein harolygiad blaenorol.

Wrth adolygu ffeiliau'r cleifion, gwelsom fod dogfennaeth statudol yn anghyflawn yn ffeiliau'r ward. Daeth staff y ward o hyd i gopiau o ddogfennaeth oedd ar goll ar adeg yr arolygiad, er mwyn gwirio'r gydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Serch hynny, dylai fod cyfres o ddogfennaeth statudol yn bresennol yn ffeil pob claf fel bod staff yn gallu cyfeirio'n hawdd at y ddogfennaeth sydd ei hangen.

Roedd mater a ddynodwyd yn yr arolygiad blaenorol, sef nad oedd ethnigrwydd wedi'i restru yn nodiadau'r cleifion, wedi cael ei drin, fe ymddengys, yn ôl y sampl o gofnodion a arolgwyd; cofnodwyd ethnigrwydd ym mhob achos.

Argymhellion

Rhaid rhoi system ar waith i gadw copi o ddogfennaeth iechyd meddwl statudol yn ffeil pob claf.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth dau glaf yn Uned Gofal Dwys Seiciatrig Ysbyty Tywysoges Cymru, a gwnaethom yr arsylwadau canlynol:

- Roedd un gyfres o nodiadau cleifion wedi cael ei hadolygu'n foddhaol o aml, a dilynwyd y garden presgripsiwn.
- Roedd tystiolaeth dda yn ffeil un claf bod asesiadau risg poen ar waith.
- Nid oedd dyddiadau adolygu'n amlwg yn ffeil un claf, ac roedd diffyg llofnodion.
- Mae angen manylion penodol, sy'n cyd-fynd ag ymddygiad risg, mewn cynlluniau rheoli risg.
- Roedd arsylwadau corfforol o ran titradu meddyginiaeth yn cael eu cynnal ar y cyfan. Roedd y siart titradu Clozaril yn cofnodi arwyddion hanfodol yn ogystal â'r siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS). Mae angen i'r siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol gael ei sgorio i ddynodi unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu sbarduno.

Argymhelliad

Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod dyddiadau adolygu a llofnodion yn cael eu cwblhau, lle bo'n berthnasol. Mae angen manylion penodol, sy'n cyd-fynd ag ymddygiad risg, mewn cynlluniau rheoli risg, ac mae angen i'r siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol gael ei sgorio i ddynodi unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu sbarduno.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ward 14 ac Uned Gofal Dwys Seiciatrig Ysbyty Tywysoges Cymru yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar gynllun gwella'r bwrdd iechyd, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus o wasanaethau iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Practis: Ysbyty Tywysoges Cymru – Ward 14 ac Uned Gofal Dwys Seiciatrig

Dyddiad yr arolygiad: 16 – 18 Tachwedd 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
13	Mae angen cynnal adolygiad o'r estyniad i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig er mwyn sicrhau bod y grŵp o gleifion yn cael ei fonitro a'i arsylwi'n ddiogel gan y staff.			
13	Mae angen cynnal adolygiad o ddrws yr iard i sicrhau bod modd ei gloi i ddiogelu cleifion a staff.			
13	Mae angen adolygu'r drysau agored a'r rhai sydd wedi eu cadw ar agor i swyddfa'r nyrsys a mannau eraill ar gyfer y staff yn			

	unig, er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r wybodaeth a gedwir yn yr ystafelloedd hyn.			
13	Mae angen rhoi sylw i lolfa'r menywod ar Ward 14 i sicrhau bod dodrefn a socedi ffôn sydd wedi torri yn cael eu tynnu ymaith neu'n cael eu trwsio.			
13	Mae angen trwsio neu newid y drws i'r golchdy ar Ward 14.			
13	Mae angen trwsio'r difrod i'r waliau ar Ward 14, yn benodol i'r wal o flaen mynedfa'r gampfa.			
15	Mae angen adolygu'r ddarpariaeth o larymau personol, a defnydd y staff ohonynt, i sicrhau bod digon ohonynt ar gyfer staff ac ymwelwyr ac nad yw diogelwch y cleifion a'r staff yn cael ei danseilio.			

15	Mae angen adolygu'r system galw nyrsys er mwyn sicrhau ei bod yn gyfleus ac ar gael i bawb ei defnyddio.			
15	Mae angen adolygu diogelwch diffoddydd tân ar Ward 14 er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd yn cael ei gamddefnyddio.			
15	Mae angen adolygu pam nad yw cydgysylltwyr gofal bellach yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol ar Ward 14, a sut caiff gwybodaeth ynglŷn â'u cleifion eu cyfathrebu iddynt.			
15	Mae angen adolygu'r drefn bresennol o ddisodli cylchdeithiau			

	ward gan adolygiadau claf i sicrhau nad yw diffyg cyfraniad y staff nyrsio yn tanseilio'r canlyniadau i'r claf.			
16	Mae'r cynllun gofal ac asesiad risg dyddiol yn rhan o'r broses nyrsio ac yn gofyn am weithredu ar y cyd. Mae angen i'r ffurf newydd sicrhau nad yw diffyg cyfraniad y staff nyrsio yn tanseilio'r canlyniadau i'r claf, ac nad yw'r drefn o gyfathrebu'n mynd yn rhanedig.			
17	Mae angen recriwtio, mewn modd amserol, therapydd galwedigaethol amser llawn a therapydd galwedigaethol cynorthwyol er mwyn cynnal amgylchedd therapiwtig parhaus yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn benodol.			
17	Mae angen cynnal adolygiad o'r			

	modd mae cleifion yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau/therapiau, gan roi ystyriaeth i amserlenni gweithgaredd generig ac i ddarparu amserlenni personol i gleifion.			
18	Dylid annog cleifion i ddewis eu prydau eu hunain o'r fwydlen a ddarperir.			
18	Mae angen adolygu'r ddarpariaeth o ddeieteg i sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd meddwl yn derbyn cyngor arbenigol pan fo angen.			
20	Mae angen cynnal adolygiad o ffeiliau staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn gyson a bod y gwaith papur yn berthnasol a			

	bod modd ei ddilyn mewn ffordd ddealladwy.			
20	Mae angen i adolygiad datblygu perfformiad blynyddol gael ei gwblhau ar gyfer pob aelod o staff.			
20	Mae angen rhoi system oruchwyllo reolaidd, a gofnodir, ar waith ar gyfer pob aelod o staff.			
20	Rhaid cynnal hyfforddiant cynnal bywyd brys ar gyfer y staff i gyd fel mater o flaenoriaeth.			
20	Mae angen adolygu a gwella cyfraddau cwblhau rhai meysydd o hyfforddiant gorfodol, yn benodol ar			

	y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.			
20	Dylid ychwanegu hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl 1983 at y rhestr orfodol er mwyn sicrhau bod cysondeb o ran gwybodaeth a defnydd.			
21	Rhaid rhoi system ar waith i gadw copi o ddogfennaeth iechyd meddwl statudol yn ffeil pob claf.			
22	Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod dyddiadau adolygu a llofnodion yn cael eu cwblhau, lle bo'n berthnasol. Mae angen manylion penodol, sy'n cyd-fynd ag ymddygiad risg, mewn cynlluniau			

	rheoli risg, ac mae angen i'r siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol gael ei sgorio i ddynodi unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu sbarduno.			
--	--	--	--	--